# Adroddiad Arolygu

**Sarah Harris**

**Y Fenni**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Medi 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.' |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn hapus yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn cyfeirio eu gweithgareddau a'u dysgu eu hunain ac maent yn gyfathrebwyr hyderus, gan fynegi eu hanghenion a'u barn yn glir. Maent wedi gwneud ffrindiau agos ac maent yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn annibynnol iawn ac yn datblygu sgiliau cyffredinol da.

Mae'r gwarchodwr plant yn gefnogol ac yn ymatebol i anghenion y plant. Mae ganddi natur ofalgar ac mae'n rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a magwrus bob amser. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn ddigonol drwy ddarparu amrywiaeth addas o weithgareddau ac adnoddau yn unol â diddordebau'r plant.

Mae cartref y gwarchodwr plant yn lân ac mewn cyflwr da, ond mae angen gwella rhai agweddau ar ddiogelwch. Mae digon o le i'r plant chwarae'n gyfforddus. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau chwarae i'r plant dan do ac yn yr awyr agored er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion a chefnogi eu datblygiad cyffredinol.

Ar y cyfan, mae angen gwella trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth ac mae angen rhoi sylw i sawl maes er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn awyddus i wneud gwelliannau ac, ers yr ymweliad arolygu, mae wedi rhoi sicrwydd i ni ei bod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd fel mater o flaenoriaeth.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cael rhyddid i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod eu hamser yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus gan eu bod yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn gwrando ar eu syniadau, eu dymuniadau a'u dewisiadau. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant am sgyrsiau cyffredinol ac i ofyn am unrhyw beth y gallent fod ei eisiau yn hawdd. Clywsom y plant yn gofyn am amrywiaeth o adnoddau gan y gwarchodwr plant er mwyn ehangu eu gweithgareddau. Er enghraifft, gwnaeth y plant a oedd am dorri eu lluniau allan ofyn am siswrn yn hyderus ac roeddent yn gallu cwblhau'r gweithgaredd o'u dewis.

Mae'r plant yn hapus yng nghartref y gwarchodwr plant ac mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn.  Maent wedi ffurfio cydberthnasau cryf â'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, gwelsom blant yn gwenu wrth fynd ati am gymorth neu sicrwydd. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o falchder. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth gan y gwarchodwr plant. Er enghraifft, gwenodd y plant yn llawn balchder wrth gael eu canmol am ddefnyddio moesau a llwyddo i gyflawni tasgau.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol, yn rhyngweithio'n dda ac maent wedi gwneud ffrindiau da. Maent yn mwynhau cwmni ei gilydd, gan wenu a chwerthin yn aml. Maent yn cwblhau gweithgareddau yn hapus ochr yn ochr â'i gilydd ac yn rhannu cyfarpar ac adnoddau'n fodlon. Maent yn treulio amser yn sgwrsio ac yn trafod eu diddordebau o ran beth maent yn hoffi ei wneud ar y penwythnos, megis nofio neu reidio tractors ar y fferm. Mae'r plant hŷn yn gwrtais ac yn deall rheolau ymddygiad, gan ddangos sensitifrwydd tuag at y plant iau.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn canolbwyntio ar y gweithgareddau o'u dewis am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, gwnaethom arsylwi ar blentyn yn rhoi sylw ystyriol i fanylder wrth liwio llun anodd o deigr yn daclus. Cododd y llun gan ofyn, *“What do you think of this so far?”*  wrth wenu'n falch, a mwynhau canmoliaeth a sylwadau cadarnhaol y gwarchodwr plant. Maent yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus ac roeddent yn llawn cyffro wrth geisio osgoi'r ‘lafa poeth’ mewn gêm ddawnsio ryngweithiol. Gwelsom eu bod yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol a gwnaethant ymateb yn dda i ganllawiau'r oedolyn yn ystod y gweithgaredd.

Mae'r plant yn hyderus i wneud pethau'n annibynnol ac maent yn cael eu cymell i ddilyn eu diddordebau personol. Maent yn cael rhyddid i gymryd rhan yn y gweithgareddau o'u dewis ac maent yn dewis adnoddau'n hyderus. Maent yn gofyn am help yn bendant gan y gwarchodwr plant pan fydd ei angen arnynt. Er enghraifft, clywsom blentyn yn gofyn, "*Please can I have some help?”*  wrth weithio'n galed i geisio plicio tanjerîn. Maent yn gwrando'n dda ar y gwarchodwr plant ac yn dilyn cyfarwyddiadau, megis golchi eu dwylo ar adegau priodol, helpu i gadw adnoddau a gwneud eu hunain yn barod i fynd i'r ysgol.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth resymol ynghylch sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac yn deall pa weithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddi unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les plentyn. Mae wedi cadw lle ar gwrs diogelu uwch yn ddiweddar er mwyn datblygu ei gwybodaeth yn y maes hwn ymhellach. Mae wedi rhoi polisi amddiffyn plant ar waith, ond nid oedd yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau i ddiweddaru'r polisi er mwyn adlewyrchu ymarfer presennol yng Nghymru. Mae ganddi bolisi a gweithdrefn glir ar waith ar gyfer meddyginiaeth. Caiff cofnodion eu cadw am unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol sydd gan y plant a chaiff y rhain eu trafod â'r rhieni fel y bo'n briodol, a gofynnir iddynt eu llofnodi hefyd. Fodd bynnag, nid oes gan y gwarchodwr plant gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol addas. Felly, ni allwn fod yn hyderus ei bod yn ymdrin ag unrhyw fân anafiadau neu ddamweiniau yn gyflym ac yn hyderus. Gwnaethom drafod pwysigrwydd hyn â'r gwarchodwr plant ac ers yr ymweliad arolygu, mae wedi cymryd camau prydlon i gadw lle ar y cwrs nesaf sydd ar gael. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu bwyd, ond mae'n annog rhieni i roi byrbrydau iach i'w plant a chaiff gweithgarwch corfforol ei annog. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn trin y plant mewn ffordd annwyl, ac mae ganddi natur amyneddgar a phwyllog. Mae'n gweithredu fel model rôl da, gan drin y plant â pharch a sicrhau ei bod yn ymddwyn mewn ffordd gyson bob amser. Mae'n annog y plant i rannu, aros eu tro ac i fod yn garedig i'w ffrindiau. Clywsom y gwarchodwr plant yn rhoi canmoliaeth gadarnhaol i ymdrechion y plant, "*Wow, well done, that's fantastic, da iawn",* a "*Well done, beautiful manners".* Mae'n sicrhau bod amseroedd byrbryd yn gymdeithasol drwy sgwrsio â'r plant wrth iddynt fwyta a'u hannog i ddefnyddio moesau da.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth addas o anghenion a galluoedd unigol y plant. Mae'n rhoi amrywiaeth o brofiadau iddynt ac yn cymryd diddordeb yn y gweithgareddau o'u dewis wrth iddi siarad â nhw am eu creadigaethau. Nid oes unrhyw gynlluniau ffurfiol ar waith ar gyfer gweithgareddau ac nid yw'r gwarchodwr plant yn arsylwi ar y plant er mwyn llywio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn am mai dim ond am gyfnod byr y mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am y plant bob dydd. Fodd bynnag, dywedodd wrthym ei bod yn cynnig cymorth gyda gwaith cartref y plant a'i bod hefyd yn helpu i gefnogi unrhyw weithgareddau iaith a lleferydd ar gais rhieni. Yn ystod yr arolygiad, clywsom y gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gyson. Clywsom lawer o enghreifftiau o Gymraeg achlysurol megis *"Da iawn", "Dim diolch"* ac *"Os gwelwch yn dda"*. Roedd yn annog y plant i ddefnyddio patrymau brawddegau Cymraeg hefyd, megis "*Ga i chwarae pêl droed yn yr ardd?"* a *"Ga i bapur os gwelwch yn dda?"*

| Yr Amgylchedd | Digonol |
| --- | --- |

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant sy'n dod yno, ond mae angen rhoi sylw i rai meysydd. Mae'r safle yn ddiogel ac mae'r mynedfeydd wedi'u cloi bob amser. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o unrhyw ymwelwyr â'r safle. Mae asesiadau risg ysgrifenedig addas ar waith sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaeth, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y plant. Wrth archwilio dogfennau, gwelsom fod y gwiriad diogelwch nwy blynyddol yn hen ac nad oedd wedi cael ei adnewyddu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae polisi tân ar waith sy'n cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn esbonio'r broses ar gyfer gadael y safle'n ddiogel ar lafar i'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o ymarferion tân ac nid oes cofnodion ffurfiol i ddangos bod cyfarpar canfod tân, megis larymau mwg, yn cael eu profi'n ddigon rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae amgylchedd y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol ac mae'n gyfforddus ar gyfer ystod oedran y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Gall y plant ddefnyddio'r lolfa a'r ystafell fwyta ar y llawr gwaelod, yn ogystal â gardd o faint da yn y cefn sy'n hyrwyddo eu profiadau chwarae awyr agored. Mae digon o le y tu mewn i'r plant allu archwilio a symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r lolfa a'r ardal fwyta i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i'r plant, a gellir cael gafael ar yr holl adnoddau yn hawdd er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae ystafell ymolchi hygyrch ar y llawr gwaelod, sy'n lân, mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i gefnogi annibyniaeth y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod addas o adnoddau a chyfarpar o ansawdd sy'n briodol i oedran y plant ac yn berthnasol i'w diddordebau. Er enghraifft, amrywiaeth o adnoddau celf a chrefft, paentio, toes chwarae, llyfrau lliwio a blociau adeiladu. Yn yr ardal awyr agored, mae adnoddau a gweithgareddau megis pêl droed, badminton a thennis bwrdd ar gael i'r plant a nodwyd bod yr holl adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu rhai adnoddau amlddiwylliannol megis doliau, llyfrau a phosau, gan helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau amrywiol a'r gymdeithas amrywiol rydym yn byw ynddi. Mae'n arddangos gwaith y plant, gan helpu i greu ymdeimlad o berthyn.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Yn gyffredinol, mae angen gwella trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am y gwasanaeth fel y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ofal eu plentyn. Mae gan y gwarchodwr plant ystod o bolisïau addas i helpu i gefnogi gweithrediad ei gwasanaeth, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu na'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofrestr o bresenoldeb y plant, ond nid yw'n adlewyrchu amseroedd cyrraedd a gadael y plant yn gywir. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi contract i rieni, ond nid oedd y cofnodion hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn unol â'r rheoliadau. Er enghraifft, roedd gwybodaeth am iechyd y plant a manylion eu hymarferydd meddygol cofrestredig ar goll. Nid oedd y gwarchodwr plant wedi cael cydsyniad y rhieni i ddarparu triniaeth feddygol frys pe bai angen 'chwaith. Gwnaethom drafod pwysigrwydd hyn â'r gwarchodwr plant a'r effaith bosibl ar lesiant a diogelwch y plant. Ers yr ymweliad arolygu, mae wedi cymryd camau prydlon i ofyn am y wybodaeth gan y rhieni a chofnodi'r holl fanylion perthnasol ar gyfer pob plentyn unigol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi monitro ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth yn dda yn flaenorol ond, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid yw wedi cynnal adolygiad diweddar na llunio adroddiad cyfredol ar ansawdd y gofal. O ganlyniad, nid yw'n gallu dangos sut mae barn y rhieni a'r plant wedi cyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth yn ddiweddar. Yn ogystal, mae'r gwarchodwr plant wedi methu â chyflwyno ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth diweddar pan ofynnodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) amdano. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei diwrnod er mwyn diwallu anghenion y plant yn ei gofal. Mae wrthi'n astudio gradd meistr mewn therapi chwarae ar hyn o bryd er mwyn ei galluogi i gefnogi plant a all fod wedi dioddef trawma, camdriniaeth neu golled. Mae'r gwarchodwr plant yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i chyfrifoldebau o ran rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau o bwys sy'n effeithio ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi gwybod i ni am newidiadau i'r bobl sy'n byw yn y lleoliad ac nid oedd yn gwybod bod hyn yn ofyniad rheoliadol. Yn ogystal, er bod gan y gwarchodwr plant wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwnaethom nodi nad oedd gwiriadau ar waith ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sy'n byw yn y lleoliad sydd dros 16 oed. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau sefydledig gyda'r teuluoedd sy'n defnyddio ei gwasanaeth. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy adborth llafar a negeseuon preifat. Mae adborth y rhieni'n gadarnhaol, a gwnaethant gadarnhau eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir a bod eu plant bob amser yn hapus i fynychu'r gwasanaeth. Maent yn gwerthfawrogi'r gofal y mae eu plant yn ei gael a gwnaethant ddisgrifio'r lleoliad fel cartref oddi cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau cynnal a chadw diogelwch nwy ar gyfer yr eiddo yn cael eu cwblhau bob blwyddyn. | Newydd |
| 38 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda'r plant a bod cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd, gan gadw cofnodion llawn. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r Person Cofrestredig gryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer cadw cofrestrau presenoldeb dyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn cofnodi'r amser y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y gwasanaeth bob dydd yn glir. | Newydd |
| 16 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod system ar waith i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth bob blwyddyn ac y caiff adroddiad perthnasol ei lunio. | Newydd |
| 17 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn cael ei gwblhau o fewn 28 diwrnod i dderbyn cais am un. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sydd dros 16 oed. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys enw eu hymarferydd meddygol cofrestredig, unrhyw anghenion iechyd, gan gynnwys gofynion deietegol arbennig neu alergeddau, a chaniatâd rhieni i ddarparu gofal meddygol brys. | Newydd |
| 24 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod ganddi gymhwyster cymorth cyntaf addas. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r

bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod cofnodion o ymwelwyr â'r cartref yn cael ei gadw a'i gynnal bob amser. |
| Safon 21 – Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiadau y mae angen rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) amdanynt. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod polisïau ac asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn neu wrth i newidiadau godi. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/06/2024